

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn:Tel: 07896964120

cyngorybala@outlook.com

Y Maer: Eifion Roberts Mayor

Ar gyfer cysylltu â'r Maer a Chynghorwyr unigol, defnyddier cyngorydbala@outlook.com



Gwysir Cynghorwyr i fynychu cyfarfod o Gyngor Tref Y Bala

Nos Iau, 6/7/23 am 7.00pm o'r gloch

Canolfan Henblas neu trwy gyfrwng Zoom

Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor; gellir derbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda – cysyllter gyda'r Clerc.

1. **Croeso**, sylwadau'r Maer, derbyn ymddiheuriadau
2. **Buddiant:** Derbyn datganiadau buddiant
3. **Cofnodion:** Cadarnhau cywirdeb Cofnodion cyfarfod 1/6/2023
4. **Materion y Clerc/ materion yn codi o Gofnodion Mehefin:**
 - i. Cyflenwad dŵr i'r ardd gymunedol (ER) a chymorth i'r grŵp (RE)
 - ii. Cynnig gan fusnes i ofalu am flodau ac i gynorthwyo busnesau i gael offer mynediad i'r anabl.
 - iii. Trafodaethau Dilwyn Morgan parthed Rheolwr Prosiect Siarter 1324
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyn Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd.
6. **Adroddiad o gyfarfod Zoom Parc Cenedlaethol Eryri 8/6/23:** Rhys Evans a Tony Parry
7. **Siarter 1324:** Ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r ffordd ymlaen
8. **Is-bwyllgorau:** Derbyn adroddiadau
 - i. Is bwyllgor digwyddiadau a gwella adnoddau i drigolion Y Bala – rhaglen 4 mlynedd
 - ii. Nadolig
 - iii. Is-bwyllgor Tref Gyfeillgar
 - iv. Bioamrywiaeth
 - v. Cyllid

9. **Strategaeth Cyfathrebu:** Cyflwyniad Clare Mackintosh

10. **Materion Cynllunio**

11. **Materion Cyllid:**

- i. Ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf
- ii. Ystyried derbyniadau'r mis a'r anfonebau i'w talu
- iii. Derbyn adroddiad o Gronfa'r Maer

12. **Gohebiaeth:** *Yn cynnwys:*

- i. **Cyngor Gwynedd:** gwaith sylweddol yn ardal Heol Arennig a Heol y Castell yn yr hydref (e-bostiwyd)
- ii. **Cyngor Gwynedd:** gwybodaeth am grantiau (e-bostiwyd)
- iii. **Triathlon:** gwybodaeth diweddar (e-bostiwyd)

13. **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** derbyn adroddiad y cynrychiolwyr

14. **Materion lleol y Cyngorwyr Tref** (*mae angen rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Clerc*)

- i. Sbwriel yn Heol Arennig (DE)
- ii. Beibl Thomas Charles (DE)
- iii. Mater i Gyngor Gwynedd: gormodedd tenantiaeth (DE)
- iv. (a) Ystyried cadarnhau penderfyniad y Cyngor yng nghyfarfod 4/7/19 sef **"Neuadd Buddug:** *Cytunwyd i ddatgan cefnogaeth i lunio Cynllun Busnes ar gyfer trosglwyddo Neuadd Buddug i grŵp cymunedol, gan awgrymu fod y Cynllun yn cynnwys cyd-weithredu gyda Theatr Derek Williams, Stiwdio Ddawns Buddug James, Canolfan y Plase a'r clybiau chwaraeon."*
(b) Ystyried gofyn i Gyngor Gwynedd ail agor cyfnod o ymgynghoriad. (CM) (e-bostiwyd)
- v. Gor-dyfiant llwybr (CM)

15. **Dyddiad** a lleoliad y cyfarfod nesaf: 7/9/2023, Canolfan Henblas

Lis Paw (Clerc)